**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**24ain Ionawr 2007**

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL

**Adroddiad gan Chris Enness, Y Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Cyflwyno i'r aelodau Gynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2005-2008, a gofyn i'r Awdurdod fabwysiadu'r Cynllun.

### Cefndir

**2.** Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) Gorchymyn 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ac i adolygu'r Cynllun bob tair blynedd. Adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Hiliol 2002-2005 y Gwasanaeth, a fabwysiadwyd eisoes gan yr Awdurdod Tân ac Achub, yw'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol hwn.

### Cyflwyniad

**3.** Mae'r cynllun newydd yn asesu cynnydd y Cynllun blaenorol, ac yn rhestru bwriadau'r Gwasanaeth am gyfnod y cynllun newydd, sef hyd at Fai 2008. Yn y cynllun, mae amserlen a chynllun realistig sy'n rhestru trefniadau'r Gwasanaeth gogyfer â chwrdd â dyletswyddau cyffredinol a phenodol y Ddeddf.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Rhaid i Gynllun Cydraddoldeb Hiliol y Gwasanaeth:

**Nodi gwahanol swyddogaethau a pholisïau**
Rhaid i'r Gwasanaeth restru yn eu cynlluniau y swyddogaethau a'r polisïau sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol o hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

**Asesu Effeithiau, Ymgynghori a Monitro**
Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cynllun yn rhestru trefniadau'r Gwasanaeth gogyfer ag Asesu Effeithiau, Ymgynghori a Monitro holl bolisïau'r Gwasanaeth.

**Caniatáu i'r Cyhoedd gael gwybodaeth a gwasanaethau**
Mae gofyn i'r Gwasanaeth restru, yn y Cynllun, ei drefniadau ar gyfer sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth ac at y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

**Hyfforddiant**
Wedi ei gynnwys yn y Cynllun mae trefniadau'r Gwasanaeth gogyfer â threfnu hyfforddiant i'w staff ynghylch y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil.

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol 2005-2008 ei lunio ym Mai 2005 a'i gyflwyno i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (Cymru). Roedd y Comisiwn yn anfodlon â Chynlluniau Cydraddoldeb Hiliol y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i ddechrau gan nodi eu bod yn hirfaith a bod angen canolbwyntio'n fwy penodol ar yr hyn oedd yn bosib ei wneud o fewn cyfnod y cynllun. Bu'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i adolygu'u cynlluniau gan ganolbwyntio'n benodol ar recriwtio a chasglu data.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

Bu'r profiad hwn o fudd mawr i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, ac o'r herwydd, gwahoddwyd y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Comisiwn i drafod y dull o weithio ar y cyd gyda Mrs Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.  O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw gyda'r Gweinidog, gwahoddwyd y tri Gwasanaeth i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithas ac Adfywio yn y Cynulliad.

## Argymhelliad

**5.** Gwahoddir yr aelodau i gymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol 2005 – 2008.